

Y pum rhyddid

TMae'r RSPCA yn credu y dylai unrhyw un sy'n gyfrifol am ofalu am anifeiliaid geisio rhoi'r pum rhyddid iddynt. Ystyrir mai delfrydau i gyrraedd atynt yw'r pum rhyddid, gan nad yw'n bosibl eu gwireddu a'u cynnal bob amser. Er enghraifft, efallai y bydd angen i anifail deimlo bod eisiau bwyd arno cyn y gwnaiff fwyta. Ond serch hynny, dylai ceidwaid anifeiliaid bob amser geisio darparu'r pum rhyddid i'w hanifeiliaid hyd y bo modd.

Am ragor o wybodaeth am anghenion anifeiliaid gweler:

www.rspca.org.uk/animalcare



Rhyddid rhag newyn a syched –

trwy roi digon o ddŵr ffres a digon, ond nid gormod, o'r bwyd iawn iddynt i'w cadw'n iach.



Rhyddid rhag anghysur –

trwy wneud yn siŵr bod yr anifeiliaid yn cael y math iawn o amgylchedd gan gynnwys cysgod a rhywle cysurus i orffwys.



Rhyddid rhag poen, anaf a chlefydau –

trwy eu hatal rhag mynd yn sâl neu gael eu hanafu a thrwy wneud yn siŵr bod anifeiliaid yn cael diagnosis a thriniaeth yn gyflym os yw hynny'n digwydd.



Rhyddid i gael ymddwyn mewn ffordd naturiol –

trwy wneud yn siŵr bod gan anifeiliaid ddigon o le, cyfleusterau cywir a chwmni anifeiliaid eraill yr un fath â nhw.



Rhyddid rhag ofn a gofid –

trwy wneud yn siŵr bod eu hamgylchiadau a'r driniaeth a gânt yn osgoi dioddef meddyliol.